# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 29 MEDI 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Anwen J. Davies, Jina Gwyrfai, Dewi Jones, Elwyn Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, Linda Morgan, Gareth Coj Parry, John Pughe, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell, Einir Wyn Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Rhion Glyn (Pennaeth Cynorthwyol – Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo) a David Mark Lewis (Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr R. Medwyn Hughes a Gwynfor Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol ar gyfer eitem 6 gan y Cynghorydd Rheinallt Puw am fod ei ferch yn gweithio yn y maes gofal yn ogystal â'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams gan fod ei wraig yn derbyn gofal. Nid oedd y buddiannau hyn yn rhai oedd yn rhagfarnu felly ni adawsant y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

## 5. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD – PLANT A THEULUOEDD

Atgoffwyd y Pwyllgor bod angen un cynrychiolydd arall i fynychu cyfarfodydd herio Perfformiad yn y maes gwaith Plant a Chefnogi Teuluoedd. Nodwyd y bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i dderbyn diweddariadau ar brosiectau blaenoriaeth ac yn gyfle i herio a dod a materion i sylw'r Pwyllgor Craffu. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**
**Enwebu'r Cynghorydd Sasha Williams fel yr ail Gynghorydd i fynychu cyfarfodydd Herio Perfformiad maes gwaith Plant a Chefnogi Teuluoedd.**

## 6. RECRIWTIO A CHADW STAFF (ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT)

Adroddodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant bod yr adroddiad Recriwtio a Chadw Staff yn darparu cefndir ac yn amlygu'r argyfwng staffio sy'n bodoli o fewn yr Adran. Nodwyd bod yr adroddiad yn un gonest sydd ddim yn ceisio cuddio unrhyw broblem. Ychwanegwyd bod yr argyfwng staffio yn y maes yn un cenedlaethol sy'n effeithio ar Awdurdodau Lleol yn ogystal â'r Gwasanaethau Iechyd.

Manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch i staff yr Adran am eu gwaith yn ogystal â'r Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol am yr adroddiad. Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth â'r Cabinet a bod trafodaethau yn cael eu cynnal yn genedlaethol a Rhanbarthol er mwyn uchafu'r argyfwng presennol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynorthwyol gan nodi'r cefndir sydd yn adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa. Adroddwyd bod materion staffio yn y maes wedi derbyn blaenoriaeth ers peth amser ac yn derbyn sylw yn lleol cyn y cyfnod Cofid ond bu i'r pandemig waethygu sefyllfa oedd eisoes yn fregus.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at y prif heriau megis cadw gafael ar staff a cheisio denu staff newydd i'r maes. Crynhowyd y rhesymau dros yr heriau hyn cyn nodi sut mae'r Adran yn ceisio ymateb i'r sefyllfa a'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bod yr adroddiad yn un agored am yr heriau mae'r Adran yn ei wynebu a bod Adrannau eraill megis yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd hefyd yn wynebu heriau sylweddol. Credwyd ei bod yn bwysig rhannu'r heriau gan eu bod yn effeithio ar allu'r Adran i ddarparu gwasanaethau. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn rhoi darlun mewnol o sefyllfa'r Cyngor a ddim yn cynnwys heriau tebyg sy'n bodoli yn y sector breifat a'r drydedd sector. Adroddwyd bod y sectorau hyn hefyd yn wynebu'r un heriau recriwtio.

Soniwyd am effaith y sefyllfa er enghraifft rhestrau aros maith, cleifion yn methu dychwelyd adra o'r ysbytai a'r pwysau ar staff. Nodwyd bod llawer o ymdrech a gweithgaredd yn digwydd, ac er bod yr Adran wedi profi llwyddiannau bychain, nid oes eto datrysiad i'r sefyllfa sy'n peri pryder. Pwysleisiwyd bod angen edrych ar yr hyn all gael ei wneud yn lleol a beth sydd o fewn rheolaeth y Cyngor ac yr Adran drwy sicrhau buddsoddiad gofalus o adnoddau presennol. Nodwyd mai adroddiad dechreuol yw hwn a gobeithir derbyn awgrymiadau gan y Pwyllgor Craffu ac awydd gan Aelodau i gynorthwyo a bod yn rhan o'r datrysiad.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad. Credwyd ei bod yn ddyletswydd ar Gynghorwyr i hyrwyddo'r swyddi yn y maes gofal i bobl leol.
- Gofynnwyd a yw'n bosib cynyddu'r cyswllt efo Colegau megis Coleg Meirion Dwyfor a chynnig lleoliadau i ddisgyblion. Holwyd os yw'n bosib ymweld â'r Coleg i siarad am ba waith a chyfleoedd sydd ar gael yn y maes gofal. Credwyd bod angen annog y dosbarthiadau iechyd a gofal cymdeithasol i chwilio am gyfleoedd yn lleol a sicrhau bod hyfforddiant parhaus ar gael yn y gweithle.
- Holwyd os oes bwriad i gynyddu cyflogau gofalwyr yn y dyfodol i'w cadw nhw rhag gadael eu swyddi.

- Nodwyd bod y ffigwr sy'n dangos gostyngiad o 42% yn nifer yr unigolion sydd wedi gwneud cais i gymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol ar draws Gymru eleni o gymharu â 2016 yn drawiadol. Gofynnwyd beth yw'r ffigwr yng Ngwynedd.
- Gofynnwyd a oedd lefel cyflog cenedlaethol yn bodoli i Weithwyr Cymdeithasol fel sydd mewn lle ar gyfer athrawon.
- Mynegwyd balchder bod gwaith lobio yn digwydd efo'r Llywodraeth ac anogwyd i hyn barhau er mwyn ceisio cael newid cenedlaethol.
- Holwyd sut y mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn cymharu efo Môn neu Gonwy.
- Nodwyd ei bod yn ddigalon clywed am yr argyfwng yn y maes gofal, yn enwedig bod canran o 44% a 34% o swyddi a hysbysebwyd heb dderbyn unrhyw gais rhwng Ebrill a Gorffennaf flwyddyn yma. Holwyd sut mae'r ffigyrau hyn yn cymharu â Siroedd eraill ac efo Adrannau eraill yn y Cyngor.
- Ychwanegwyd y byddai wedi bod yn fuddiol i'r adroddiad ganolbwyntio mwy ar y datrysiadau i'r problemau recriwtio.
- Cyfeiriwyd at ran 5.4 o'r adroddiad gan holi am ddiweddariad ar waith y swyddog gafodd ei phenodi yn Rhagfyr 2021 i ddatblygu'r llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y maes ac i ymgymryd â gwaith marchnata.
- Holwyd pa gynlluniau sydd ar y gweill i ail gynhyrchu llwyddiant digwyddiad Plas Hedd ym Maesgeirchen.
- Credwyd bod pryder yn bodoli ymysg Gweithwyr Cymdeithasol a bod pryderon wedi eu datgan am y trawsnewid trefniadau gofal cartref sydd wedi digwydd. Gofynnwyd sut mae'r Adran yn cefnogi staff presennol yn ogystal â cheisio recriwtio staff newydd. Dymunwyd cael gwybod faint o ymdrech sydd wedi bod pan mae gweithwyr gofal yn gofyn am help ac os oes modd ysgafnu'r baich.
- Awgrymwyd y dylai'r Adran edrych ar gyfleodd pellach e.e. cynnig swyddi rhan amser pan nad oes neb ar gael i lenwi swyddi llawn amser ac edrych ar staff mewnol y Cyngor all gael eu hyfforddi i helpu ambell ddiwrnod o'r wythnos. Pwysleisiwyd bod angen hyblygrwydd ac efallai ceisio targedu staff sydd yn colli eu gwaith o ganlyniad i sefydliadau / siopau yn cau.
- Holwyd os yw'r Adran yn cynnal cyfweliadau efo staff sy'n gadael er mwyn nodi eu rhesymau dros adael eu swyddi.
- Gofynnwyd a oes staff wedi eu colli yng Ngwynedd oherwydd eu bod nhw wedi gwrthod y brechlynnau cofid.
- Cytunwyd efo sylwadau blaenorol Aelodau am dargedu Ysgolion a Choleg Meirion Dwyfor ond cwestiynwyd os yw trigolion cefn gwlad yn mynd i gymryd y cyfleoedd i hyfforddi tra mae costau trefeillio, tanwydd a rhedeg ceir mor ddrud. Ychwanegwyd bod hyn yn her o ystyried bod gweithwyr siop yn cael eu talu'r un fath os nad yn well na rhai swyddi o fewn y maes gofal. Credwyd nad yw'r cyflog i ofalwyr yn ddigonol i gydnabod y cyfrifoldebau.
- Teimlwyd bod y system iechyd a gofal cymdeithasol ddim yn cydweithio'n effeithiol e.e. pobl yn methu dychwelyd adra o'r ysbytai.
- Credwyd bod angen gweithio efo'r system iechyd er mwyn sicrhau bod swyddi a hyfforddi pellach ar gael i'r sawl sy'n graddio yn y maes neu'n cwblhau cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad am waith yr Adran o dan amgylchiadau heriol iawn a chymerodd y cyfle i ddiolch i staff yr Adran am eu gwaith. Yn ogystal diolchwyd i Aelodau'r Pwyllgor am eu cwestiynau.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Byddai modd gwneud ymholiadau i weld a oes gostyngiad wedi bod yn nifer y rhai o Wynedd sydd wedi gwneud cais i gymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol.
- Bod lefelau cyflog gweithwyr cymdeithasol yn amrywio ar draws Awdurdodau. Nodwyd bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn edrych ar y mater Cenedlaethol hwn a'i fod yn rhan o drafodaethau efo Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai lefel cyflog Cenedlaethol yn arbed staff rhag symud rhwng Awdurdodau.
- Bod yr Adran yn ceisio annog pobl i ddilyn gyrfaoedd yn lleol a bod perthynas dda yn bodoli efo Coleg Meirion Dwyfor. Bydd angen sicrhau bod y berthynas yma'n parhau a bod cynigion a chyfleoedd yn cael eu rhoi yng nghyd diestyn profiadau gwaith a'n rhan o asesu cyrsiau. Adroddwyd bod y Rheolwr Datblygu Gweithlu yn ceisio symud y gwaith hwn yn ei flaen.
- Ei bod yn bosib i Swyddog fynychu Coleg Meirion Dwyfor i siarad am y cyfleoedd yn y maes Gofal. Eglurwyd bod hyn wedi digwydd yn y gorffennol ond credwyd y dylid pwysleisio ar y cydweithio a gwella'r strwythur yn gyntaf. Ychwanegwyd y gall hyn ddigwydd yn y dyfodol.
- Bod gwybodaeth yn yr adroddiad ar effaith cytundeb tâl ar gyflogaeth, sydd yn gyffredinol ar draws swyddi Awdurdodau Lleol. Adroddwyd bod trafodaethau Cenedlaethol yn cael eu cynnal efo Partneriaid i edrych ar lefelau cyflog yn y maes gofal. Ychwanegwyd bod gwaith mewnol hefyd yn digwydd i adolygu Swydd Ddisgrifiadau. Credwyd ei bod yn amserol i edrych ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau gweithwyr yn y maes gan fod y gwaith wedi cynyddu ac wedi cymhlethu yn y blynyddoedd diwethaf. Nodwyd bod anghenion trigolion wedi newid ac wedi dwysau, bellach mae angen i weithwyr berchnogi sgiliau a hyfforddiant arbenigol cyn ymgymryd ag agweddau o'r gwaith felly mae angen gwirio'r cyflogau sy'n cael eu talu i staff.
- Yn dilyn cais am eglurder am yr hyn a nodwyd yn rhan 3.8 o'r adroddiad, cadarnhawyd mai 13 oedd cyfanswm y staff o dimau gwaith cymdeithasol yn y maes Oedolion adawodd eu swyddi yn 2021/22 i un ai fynd i weithio i Awdurdodau Lleol eraill neu i ddilyn gyrfaoedd tu allan i'r sector. Nodwyd nad oedd y ffigwr hwn ar sail canran ar gael ar hyn o bryd. Ychwanegwyd bod mwyafrif o'r 13 swydd yma bellach wedi eu llenwi ond y byddai'n cymryd amser i ddalwyr newydd y swyddi ennill y profiad perthnasol.
- Bydd angen edrych ymhellach i ganfod y ffigyrau ynglŷn â sut mae lefelau cyflog Gwynedd yn cymharu â lefelau cyflog Siroedd cyfagos.
- Cytunwyd bod y sefyllfa recriwtio yn ddyrys ac yn gyffredinol credwyd bod negeseuon cysgon gan Siroedd eraill sydd yn awgrymu eu bod nhw'n wynebu'r un heriau recriwtio a Gwynedd. O gymharu ag Adrannau eraill o fewn y Cyngor, cadarnhawyd mai'r maes Oedolion sydd yn wynebu'r heriau mwyaf o bell ffordd o ran recriwtio.
- Nodwyd bod y swydd y cyfeirir ati yn rhan 5.4 o'r adroddiad wedi dangos ei gwerth o'r mis cyntaf a bod y galw ar y swyddog yn uchel. Cyfeiriwyd at ddigwyddiadau gafodd eu cynnal e.e. ym Maesgeirchen ond bod rhaid i'r swyddog ddethol be all gael ei gyflawni. Adroddwyd bod swyddi fel hyn yn hanfodol er mwyn helpu i wella'r ddelwedd o weithio yn y maes ac i bontio'r gwaith Cenedlaethol ac i fuddsoddi mewn brandio. Ychwanegwyd bod yr adnodd yn werthfawr.
- Adroddwyd bod digwyddiadau tebyg i ddigwyddiad Plas Hedd wedi cael eu cynnal e.e. ym Mhorthmadog a Blaenau Ffestiniog ond yn anffodus heb brofi'r un llwyddiant. Nodwyd bod amrywiaeth ymysg cymunedau a chredwyd bod ymgyrchoedd lleol yn dueddol o fod yn fwy llwyddiannus nac ymgyrchoedd cenedlaethol. Nodwyd bod gan yr Adran restr hir o ardaloedd y dymunant eu targedu.

- Mewn ymateb i sylw os oedd yr Adran yn cysidro targedu Ysgolion er mwyn amlygu gyrfaoedd yn y maes, nodwyd bod yr Adran yn y broses o greu pecyn ond angen rhoi mwy o sylw iddo. Bydd hwn yn ffordd o grynhoi gwybodaeth berthnasol ac yn rhan o waith yr Uned Datblygu Gweithlu â' Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd.
- Cydnabuwyd bod pwysau ar staff fel Gweithwyr Cymdeithasol a bod lles staff yn bwysig i'r Adran. Gofynna'r Adran am fewnbwn cyson gan y Gweithwyr Cymdeithasol a cheisir rhoi cefnogaeth i'r gweithwyr. Nodwyd bod yr Arweinyddion Tîm a'r Uwch Reolwyr yn cadw golwg ar y sefyllfa ac yn ceisio ysgafnhau'r baich ar staff. Bydd cyfathrebu yn digwydd ar bob lefel ac ymweliadau yn cael eu cynnal. Nodwyd bod yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth wedi ymweld ag unigolion sy'n gweithio yn y maes yn ogystal â chartrefi gofal er mwyn sgwrsio â staff a defnyddwyr gwasanaeth. Anogwyd yr Aelodau i ddod i gysylltiad os yn ymwybodol o aelod o staff o fewn yr Adran sydd yn dymuno sgwrs bellach.
- Adroddwyd bod yr Adran mewn cydweithrediad efo'r Cyngor yn cynnig gwasanaethau fel Medra a bod rhaglenni Cenedlaethol o gefnogaeth yn bodoli. Cynigiwyd trefnu sgwrs efo'r Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion neu'r Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl i Aelodau sy'n dymuno er mwyn eu galluogi i dderbyn mwy o fanylder am y gwasanaeth cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol.
- Adroddwyd bod y gwaith ar drawsnewid trefniadau gofal cartref yn digwydd am y rhesymau cywir i geisio gwella'r gwasanaeth i bobl Gwynedd. Ychwanegwyd ei bod yn anffodus bod y newid hwn wedi digwydd ar adeg pan mae'r Gwasanaeth o dan bwysau enfawr sy'n cael ei gymhlethu ymhellach oherwydd yr heriau recriwtio. Credwyd y gellir gwerthuso'r canlyniadau mewn blwyddyn i flwyddyn a hanner er mwyn gweld os yw'r trawsnewid wedi gweithio. Ychwanegwyd nad y trawsnewid sydd wedi creu'r problemau ond bod yr amseru wedi bod yn anffodus a'i bod yn anodd mesur llwyddiant ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod yr Adran yn ceisio hyrwyddo cyfleon, maent eisoes wedi anfon newyddlen i staff yr Adran yn hysbysu cynigion i hyfforddi er mwyn gallu helpu efo elfennau o'r gwaith. Y cam nesaf bydd ymestyn y cynnig i staff y Cyngor er mwyn gweld os oes rhai yn dymuno helpu. Ychwanegwyd bod yr Adran yn ystyried ac yn derbyn ceisiadau am nifer amrywiol o oriau a bod cyfleoedd ar gael i ba bynnag faint o oriau sy'n bosib gan unigolion i weithio.
- Gwnaethpwyd sylw bod yr Adran yn noddi ac yn cynnig profiadau gwaith ac wedi cefnogi staff presennol yr Adran i hyfforddi a datblygu eu gyrfaoedd a'u galluogi i dderbyn swydd yn dilyn cwblhau'r cyrsiau perthnasol. Anogwyd unigolion sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y maes gofal i ddod mewn cysylltiad â'r Adran.
- Adroddwyd bod cyfweliadau gadael eisoes yn cael eu cynnal gan yr Adran a bod llawer o'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad wedi deillio o'r cyfweliadau hynny. Ychwanegwyd bod gwyliau'r Haf yn gyfnod anodd oherwydd bod cystadleuaeth yn erbyn swyddi tymhorol sy'n talu'n dda.
- Cadarnhawyd nad oedd staff wedi eu colli o'r Adran oherwydd gwrthwynebiad i gael eu brechu.
- Adroddwyd bod y Cyngor yn cynnig cymorth i staff er mwyn eu helpu i brynu ceir. Cydnabuwyd bod teithio yn broblem i rai ac o ganlyniad bod rhai yn symud i swyddi ble nad oes gofyn i deithio.
- Mewn ymateb i gwestiwn am lwyddiant cynllun peilot Nefyn, adroddwyd bod llwyddiannau wedi eu gweld a'i fod wedi cyfrannu at ddysgu am fodelau newydd o weithio.

- Adroddwyd bod llawer o gydweithio rhwng y Cyngor a'r sector iechyd yn enwedig ar lefelau lleol ond weithiau bod y gwahaniaeth rhwng systemau iechyd a systemau gofal yn gallu gwneud pethau'n anodd. Credwyd bod lle yma i wella.

Mynegodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i'r Pwyllgor am eu cwestiynau. Ychwanegodd bod pethau'n ymddangos yn dywyll ond bod cynlluniau blaengar a chyffrous yn mynd yn eu blaenau yn yr Adran.

Ychwanegodd y Pennaeth bod pob ymdrech yn cael ei roi i'r gwaith yn y maes gofal a'i fod yn gwerthfawrogi mewnbwn y Pwyllgor. Cynigiwyd hwyluso cyfarfodydd grŵp ffocws i ddau o aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal a staff yr Adran er mwyn cynnal sgyrsiau hollbwysig yna gallent adrodd yn ôl i weddill y Pwyllgor.

I gloi nododd y Pennaeth ei fod yn gobeithio bod yr adroddiad yn rhoi blas o'r gwaith sy'n parhau ac yn mynd i ddigwydd yn yr Adran. Mynegodd ei awydd i Gynghorwyr dderbyn gwybodaeth er mwyn cael darlun clir o'r sefyllfa yn y maes. Adroddwyd y bydd yr Adran yn ceisio diweddaru'r Pwyllgor ynglŷn â datblygiadau posib gan obeithio y bydd yr Adran yn profi llwyddiant a'n gallu lleihau'r heriau.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 7. GWASANAETH CADWRAETH YNNI NEWYDD

Derbyniwyd rhagair gan yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo a gyfeiriodd at waith tîm o Swyddogion yn y Gwasanaeth Eiddo sy'n ceisio lleihau ôl troed carbon y Cyngor. Nododd eu bod wedi profi llwyddiannau ac o ganlyniad, wrth greu'r Cynllun Gweithredu Tai, roedd awydd i helpu trigolion a'r cyhoedd yng Ngwynedd drwy gynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol. O ganlyniad eglurwyd bod y Gwasanaeth Cadwraeth Ynni Newydd wedi cael ei sefydlu. Dan arweiniad y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol credwyd bod y gwasanaeth hwn wedi llwyddo. Mynegwyd balchder yn y gwaith a phwysleisiwyd pwysigrwydd lledaenu'r neges am y gwaith da sy'n cael ei wneud gan y tîm.

Mynegodd y Pennaeth Tai ac Eiddo ei diolch am y cyfle i adrodd am weithgareddau'r Gwasanaeth Ynni Newydd i'r Pwyllgor. Nododd y bydd yr adroddiad yn cyfeirio at y daith o sefydlu'r gwasanaeth a'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma yn ogystal â'r gwaith sydd ar y gweill. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at sut mae cynllun rheoli carbon y Cyngor yn plethu efo'r gwaith ar y cynllun newid hinsawdd y mae'r Cyngor wedi ei ymrwymo iddo.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol gan gyfeirio at brif negeseuon yr adroddiad. Nodwyd bod dwy ran i'r adroddiad, bydd y rhan gyntaf yn cyfeirio at y Gwasanaeth Ynni Newydd a'r ail ran yn cyfeirio at y Cynllun Rheoli Carbon a'r gwaith sydd wedi ei wneud dros y deuddeg mlynedd diwethaf.

Tywyswyd y Pwyllgor drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at y gwaith o ddatgarboneiddio tai a'r help sydd ar gael gan y Cyngor tuag at dlodi tanwydd. Nodwyd bod y wybodaeth yn yr adroddiad megis y graffiau yn drawiadol am eu bod yn dangos difrifoldeb y sefyllfa yng Ngwynedd a chyfeiriwyd at aneffeithlonrwydd ynni mwyafrif o dai'r Sir. Manylwyd am y cynlluniau megis Nyth ac ECO a'r taliadau sydd ar gael i gynnig cymorth i bobl Gwynedd a thrigolion sydd ar fesuryddion rhagdalu.

Ychwanegwyd bod y tîm yn ceisio sicrhau bod pobl y Sir yn hawlio popeth sydd ar gael iddynt ac yn gwneud gwaith o gyfeirio unigolion at y cynlluniau priodol. Rhagdybiwyd y bydd y galw ar y tîm yn cynyddu o ganlyniad i gostau tanwydd cynyddol ac mai amser a ddengys

a yw'r hyn sydd ar gael gan y tîm yn ddigonol i anghenion pobl Gwynedd. Nodwyd bod hafan newydd ar gyfer tlodi ar wefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol am y gefnogaeth sydd ar gael.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am adroddiad arbennig a broliwyd y cynnwys manwl.
- Mynegwyd sylw ei bod yn fwy costus i fod ar fesuryddion rhagdalu ond mai hwn yw'r opsiwn fwyaf fforddiadwy i amryw yn y Sir am nad oes angen talu lwmp swm yn chwarterol.
- Cyfeiriwyd at ECO 4 a'r grantiau sydd ar gael i insiwleiddio tai er mwyn arbed ynni. Pryderwyd y gall lleithder ddatblygu mewn eiddo o ganlyniad i waith insiwleiddio a holwyd os oes rywun o'r Cyngor yn cynnal ymweliadau er mwyn sicrhau bod y deunyddiau a ddefnyddiwyd gan gwmnïau yn addas. Holwyd hefyd a yw'r cwmnïau a ddefnyddir yn lleol, o Wynedd neu Ogledd Cymru.
- Mynegwyd ei fod yn gyfle da i hybu cydweithio ac i'r Cyngor ddenu prentisiaid neu hyrwyddo cyfleoedd am swyddi. Credwyd y byddai yn dda gallu cynnig cyfleoedd i'r ifanc ac i gyfrannu at y gwaith newid hinsawdd.
- Gofynnwyd beth yw criteria'r grantiau gan holi os oes help i'r rhai sy'n talu biliau yn chwarterol.
- Nodwyd bod y ffigyrau a nodwyd yn yr adroddiad yn galonogol iawn fel y 349 o gyfeiriadau i ECO 3. Canmolwyd y cynllun Nyth sydd wedi helpu i gynhesu eiddo trigolion a'i gwneud yn fwy ynni effeithlon yn ogystal â chynnig cyngor. Nodwyd bod y rhain yn gynlluniau sydd â budd sylweddol i iechyd a llesiant trigolion y Sir yn ogystal â lleihau eu biliau.
- Gwiriwyd y ffigwr o alwadau a chyfeiriadau Nyth gan nodi bod yr adroddiad yn cyfeirio at 55 o gyfeiriadau allan o 257 o alwadau mewn un rhan ond yna yn cyfeirio at 257 o gyfeiriadau mewn rhan arall.
- Holwyd os yw unigolyn wedi derbyn cymorth drwy'r cynllun Nyth yn y gorffennol a yw'r Cyngor yn cysylltu gyda hwy eto ac a oes help pellach ar gael.
- Gofynnwyd a yw'r rhai sy'n derbyn lwfans person sengl treth Cyngor yn gymwys am y cynllun.
- Credwyd bod angen edrych ar dai yn eu cyfanrwydd gan nodi nad oes llawer o werth i wella boeleri a gwresogyddion os oes ffenestri o safon gwael mewn eiddo.
- Gwnaethpwyd sylw bod unigolion sy'n gweithio bellach hefyd yn wynebu tlodi ac weithiau yn dlotach na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau. Pwysleisiwyd bod angen helpu'r garfan yma o'r boblogaeth.
- Credwyd bod y cynnydd yng nghostau tanwydd wedi dychryn llawer o bobl ac y bydd galw uwch ar wasanaethau eraill fel yr ambiwlans o ganlyniad i hynny. Pryderwyd y bydd ymdrech trigolion y Sir i arbed costau ynni yn arwain at gymryd risgiau o fewn y cartref.
- Holwyd beth mae sefydliadau Hydro sydd i'w gweld mewn lleoliadau fel Llanberis, Maentwrog a Tanygrisiau yn ei gyfrannu ac os oes modd iddynt gyfrannu neu gynnig cymorth i bobl Gwynedd.
- Mynegwyd pryder am rai cwmnïau sy'n ychwanegu cost ar filiau trydan sy'n hwyr ac o fewn wythnos yn eu cyfeirio at gwmni dyled.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod pob math o bobl yn cysylltu am gymorth ond bod y rhan helaeth ar fesuryddion rhagdalu a bod y mwyafrif o'r help sydd ar gael ar gyfer y bobl hyn. Cadarnhawyd bod y tariff yn dueddol o fod yn uwch i drigolion sydd ar fesuryddion rhagdalu.
- Nodwyd bod llawer o broblemau yn bodoli efo'r hen gynlluniau Arbed 1 ac Arbed 2. Eglurwyd bod gwefan y Cyngor yn rhestru pedwar o gontractwyr sydd wedi eu gwirio ac y gellir cyfeirio pobl yma. Adroddwyd mai'r Llywodraeth sydd yn ariannu'r cynlluniau a bod y contractwyr yn cael eu talu ar yr amod eu bod nhw wedi gwella EPC yr eiddo dan sylw. Nid yw'n debygol y bydd y Cyngor yn cynnal ymweliadau i fonitro am ei fod yn gytundeb rhwng y contractwr a'r unigolyn. Cadarnhawyd bod un o'r pedwar cwmni o Ynys Môn ond nid yw'r un ohonynt o Wynedd am eu bod yn gwmnïau mawr, arbenigol. Ychwanegwyd efallai y bydd cyfleoedd yn y dyfodol i hybu'r cynllun a denu mwy o gontractwyr ar ôl asesu'r galw. Nodwyd bod cyfarfodydd misol efo'r contractwyr yn cael eu cynnal.
- Nodwyd bod y mwyafrif o'r cynlluniau ar gael i'r sawl sydd ar fesuryddion rhagdalu ond bod taliadau fel DAF (cronfa cymorth ddewisol) ar gael ar gyfer y sawl sy'n talu biliau'n chwarterol. Ychwanegwyd bod y wybodaeth ar sut i wneud cais wedi ei nodi ar wefan Cyngor Gwynedd.
- Nododd y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol y byddai'n gwirio'r ffigyrau Nyth yn yr adroddiad ac yn cysylltu efo'r Cynghorydd dan sylw i gadarnhau gan ei fod wedi derbyn y ffigyrau yn uniongyrchol gan Nyth. Adroddwyd o hyn ymlaen fel rhan o adroddiad monitro perfformiad y gwasanaeth byddant yn adrodd ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau a'r tai sydd wedi eu gwella.
- Adroddwyd bod Nyth fel arfer yn gwneud un ymweliad yn unig ond nad oes dim yn rhwystro unigolion rhag ceisio am help o dan y cynllun ECO os wedi derbyn cymorth Nyth yn y gorffennol, cyn belled ag y bo lle i wella EPC yr eiddo.
- Credwyd nad yw'n broblem i dderbynwyr lwfans person sengl treth Cyngor dderbyn cymorth gan Nyth ond byddant yn sicr yn gymwys o dan y cynllun ECO. Adroddwyd bod yr Adran yn dueddol o gyfeirio mwy o unigolion at ECO.
- Nodwyd mai'r nod yw ceisio helpu gymaint o bobl a fu'n bosib, yn enwedig o dan ran o'r cynllun ECO Flex fydd yn cychwyn un ai yn yr Hydref neu ar ôl y Nadolig. Bydd hwn yn hyblyg er mwyn cynnwys amryw o bobl.
- Adroddwyd efallai bydd cynllun ychwanegol yn cael ei greu; cynhelir trafodaethau efo Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sydd efo rhywfaint o gyllideb i'r pwrpas yma. Nodwyd yn anffodus nad oes cynllun erioed wedi bodoli i helpu i wella a newid ffenestri eiddo, efallai ei fod yn rhywbeth y gall y Cyngor edrych fewn iddo.
- Ychwanegwyd y bydd lle i ddiweddaru'r adroddiad gan fod datblygiadau yn digwydd yn sydyn ac y byddai'r adroddiad yn adroddiad byw fydd yn cael ei ddatblygu.
- Mewn ymateb i sylw am ail agor llefydd tân sydd wedi cael eu cau mewn tai cymdeithasol, nodwyd yn anffodus bod llefydd tân agored yn creu allyriadau carbon.
- Adroddwyd bod ffactor carbon trydan wedi lleihau o gymharu â 10 mlynedd yn ôl yn bennaf oherwydd yr ynni adnewyddol fel Hydro, solar a melinau gwynt. Nodwyd bod astudiaeth yn cael ei gynnal yn Nhanygrisiau i weld os oes modd darparu'r trydan lleol o'r Hydro i'r tai. Eglurwyd bod rhwystrau e.e. yr angen i bob un o'r tai fod efo'r un cyflenwr trydan, ond ei fod yn waith sy'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.
- Eglurwyd bod gwaith yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Uchelgais o safbwynt 'Smart Networks' sy'n edrych mewn i drydan lleol i bobl leol a bod adroddiadau yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd. Cynhelir y gwaith hwn ar draws Gogledd Cymru.

Diolchodd y Pennaeth Tai am yr holl ymholiadau a'r cyfle i rannu'r adroddiad efo'r Pwyllgor. Mynegwyd awydd i ddod yn ôl yn y dyfodol agos er mwyn darparu diweddariad pellach ar y cynlluniau i Aelodau'r Pwyllgor.

Adroddwyd y bydd y wybodaeth gafodd ei rannu heddiw yn cael ei roi ar Fewnrwyd yr Aelodau fel y gall yr Aelodau rannu'r wybodaeth efo'u hetholwyr. I gloi nodwyd bod yr Adran yn gwneud eu gorau i helpu gymaint â fu'n bosib o bobl Gwynedd dros y gaeaf nesaf ac yn gobeithio gall y cynlluniau fel y cynllun ECO 4 roi cymorth i amrediad eang o drigolion y Sir.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad oedd yn darparu trosolwg o waith y gwasanaeth Ynni Newydd yn ogystal â'r gwaith Newid Hinsawdd.**

## 8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

Darparwyd adroddiad byr i'r Aelodau yn dangos rhaglen waith ddiweddaraf y Pwyllgor yn dilyn newidiadau oherwydd eitemau yn llithro. Nodwyd y bydd cyfarfodydd Tachwedd a Chwefror yn gyfarfodydd trwm gall barau drwy'r dydd.

Nid oedd sylwadau na chwestiynau gan yr Aelodau.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn yr adroddiad a mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2022/23.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 13:50

**CADEIRYDD**